PROSPECTIVE

# YR ATODLENNI

## ATODLEN 1

Y Rhaglith

Darpariaethau sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru a arferir wrth wneud y Rheoliadau hyn

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 1 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

| *Y deddfiad sy'n rhoi pŵer* | |
|---|---|
| Deddf 2014 | Adrannau 81(6)(d), 83(5) 84, 87, 97(4)(a), 97(5), 98(1)(a), 100(1)(b), 100(2)(a), 102(1), 102(2), 104(2)(c), 104(6), 106(4), 107(7)(c), 107(8), 107(9), 108(6), a 196(2) |
| Deddf Plant 1989 | Adrannau 31A a 34(8). |

## ATODLEN 2

Rheoliad 5

Cynlluniau gofal a chymorth

### Gwybodaeth sydd i'w chynnwys yn y cynllun iechyd

**1.**—(1) Cyflwr iechyd C gan gynnwys ei iechyd corfforol, geneuol, emosiynol a meddyliol.

(2) Hanes iechyd C gan gynnwys, i'r graddau sy'n ymarferol, hanes iechyd teulu C.

(3) Effaith iechyd a hanes iechyd C ar ei ddatblygiad.

(4) Y trefniadau presennol ar gyfer gofal meddygol a deintyddol C, sy'n briodol i'w anghenion, gan gynnwys—

(a) gwiriadau rheolaidd o gyflwr iechyd cyffredinol C, gan gynnwys iechyd deintyddol;

(b) triniaeth a monitro ar gyfer anghenion iechyd a nodir (gan gynnwys iechyd corfforol ac emosiynol, ac yn enwedig iechyd meddwl) neu anghenion gofal deintyddol;

(c) mesurau ataliol megis brechiadau ac imiwneiddio;

(d) sgrinio am ddiffygion golwg neu glyw; ac

(e) cyngor a chanllawiau ar hybu iechyd a gofal personol effeithiol (gan gynnwys iechyd meddwl a gofal geneuol).

(5) Unrhyw newidiadau arfaethedig yn y trefniadau presennol.

(6) Rôl y person priodol ac unrhyw berson arall sy'n gofalu am C, mewn hyrwyddo iechyd C.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Atod. 2 para. 1 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

### Gwybodaeth sydd i'w chynnwys yn y cynllun addysg personol

**2.**—(1) Hanes addysgol a hanes hyfforddiant C, gan gynnwys gwybodaeth am sefydliadau addysgol a fynychwyd, a chofnod presenoldeb ac ymddygiad C, ei gyflawniadau academaidd a chyflawniadau eraill; ac anghenion addysgol arbennig C, os oes rhai.

(2) Y trefniadau presennol ar gyfer addysg a hyfforddiant C, gan gynnwys manylion am unrhyw ddarpariaeth addysgol arbennig, ac unrhyw ddarpariaeth arall a wneir i ddiwallu anghenion penodol C o ran addysg neu hyfforddiant, a hyrwyddo ei gyflawniad addysgol.

(3) Diddordebau hamdden C.

(4) Pan fo angen gwneud unrhyw newid yn y trefniadau ar gyfer addysg neu hyfforddiant C, y ddarpariaeth a wnaed i leihau'r amharu ar yr addysg honno neu'r hyfforddiant hwnnw.

(5) Rôl y person priodol ac unrhyw berson arall sy'n gofalu am C o ran hyrwyddo cyflawniadau addysgol C a'i ddiddordebau hamdden.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Atod. 2 para. 2 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

### Perthnasoedd teuluol a chymdeithasol

**3.**—(1) Os oes gan C frawd neu chwaer y darperir llety ar ei gyfer neu ar ei chyfer gan yr awdurdod cyfrifol neu awdurdod arall, ac nad yw'r plant wedi eu lleoli gyda'i gilydd, y trefniadau a wnaed i hyrwyddo cyswllt rhyngddynt, i'r graddau y mae hynny'n gyson â llesiant C.

(2) Os yw C yn derbyn gofal gan, ond nid yng ngofal, yr awdurdod cyfrifol, manylion am unrhyw orchymyn mewn perthynas ag C a wnaed o dan adran 8 o Ddeddf 1989.

(3) Os yw C yn blentyn yng ngofal yr awdurdod cyfrifol, manylion am unrhyw orchymyn mewn perthynas ag C a wnaed o dan adran 34 o Ddeddf 1989 (cyswllt rhiant etc. â phlant mewn gofal).

(4) Unrhyw drefniadau eraill a wnaed i hyrwyddo a chynnal cyswllt yn unol ag adran 95 o Ddeddf 2014, i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol ac yn gyson â llesiant C, rhwng C ac—

(a) unrhyw riant C ac unrhyw berson nad yw'n rhiant C ond sydd â chyfrifoldeb rhiant am C; a

(b) unrhyw berson cysylltiedig arall.

(5) Pan fo adran 98(1) o Ddeddf 2014 (ymwelwyr annibynnol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal) yn gymwys, y trefniadau a wnaed i benodi ymwelydd annibynnol ar gyfer C neu, os yw adran 98(6) o'r Ddeddf honno'n gymwys (ymwelydd annibynnol heb ei benodi pan fo'r plentyn yn gwrthwynebu), y ffaith honno.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** Atod. 2 para. 3 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

## ATODLEN 3

Rheoliad 10

### Materion sydd i'w hymdrin â hwy yn y cynllun lleoli

**Gwybodaeth sydd i'w chynnwys yng nghynllun lleoli C**

**1.**—(1) Sut y gofelir am C o ddydd i ddydd ac y diogelir a hyrwyddir llesiant C gan y person priodol.

(2) Unrhyw drefniadau a wnaed ar gyfer cyswllt rhwng C ac unrhyw riant C ac unrhyw berson nad yw'n rhiant C ond sydd â chyfrifoldeb rhiant am C, a rhwng C a phersonau cysylltiedig eraill gan gynnwys, os yw'n briodol—

(a) y rhesymau pam na fyddai cyswllt ag unrhyw berson o'r fath yn rhesymol ymarferol neu na fyddai'n gyson â llesiant C,

(b) os nad yw C yng ngofal yr awdurdod cyfrifol, manylion am unrhyw orchymyn a wnaed o dan adran 8 o Ddeddf 1989,

(c) os yw C yng ngofal yr awdurdod cyfrifol, manylion am unrhyw orchymyn mewn perthynas ag C a wnaed o dan adran 34 o Ddeddf 1989,

(d) y trefniadau a wnaed ar gyfer hysbysu ynghylch unrhyw newidiadau yn y trefniadau ar gyfer cyswllt.

(3) Y trefniadau a wnaed ar gyfer gofal iechyd (gan gynnwys iechyd corfforol, emosiynol a meddyliol) a deintyddol C, gan gynnwys—

(a) enw a chyfeiriad ymarferydd cyffredinol ac ymarferydd deintyddol cofrestredig C, ac os yw'n gymwys, unrhyw ymarferydd cyffredinol neu ymarferydd deintyddol cofrestredig y bwriedir cofrestru C gydag ef ar ôl ei leoli,

(b) unrhyw drefniadau ar gyfer rhoi neu atal cydsyniad ar gyfer archwiliad neu driniaeth feddygol neu ddeintyddol i C.

(4) Y trefniadau a wnaed ar gyfer addysg a hyfforddiant C, gan gynnwys—

(a) enw a chyfeiriad unrhyw ysgol y mae C yn ddisgybl cofrestredig ynddi,

(b) enw'r person dynodedig ar gyfer disgyblion sy'n derbyn gofal yn yr ysgol honno (os yw'n gymwys); enw a chyfeiriad unrhyw sefydliad addysgol arall a fynychir gan C, neu unrhyw berson arall sy'n darparu addysg neu hyfforddiant i C,

(c) pan fo gan C ddatganiad anghenion addysgol arbennig, manylion am yr awdurdod addysg lleol sy'n cynnal y datganiad.

(5) Y trefniadau a wnaed i R ymweld ag C yn unol â Rhan 5, amlder yr ymweliadau a'r trefniadau a wnaed i roi cyngor a chymorth arall ar gael i C rhwng ymweliadau yn unol â rheoliad 34.

(6) Os penodir ymwelydd annibynnol, y trefniadau a wnaed i'r person hwnnw ymweld ag C.

(7) Yr amgylchiadau pan ganiateir terfynu'r lleoliad a symud C ymaith o ofal y person priodol yn unol â rheoliad 15.

(8) Enw a manylion cyswllt y canlynol—

(a) yr SAA;

(b) ymwelydd annibynnol C (os penodwyd un);

(c) R; a

(d) os yw C yn berson ifanc categori 1, y cynghorydd personol a benodwyd ar gyfer C.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** Atod. 3 para. 1 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

### Gwybodaeth ychwanegol sydd i'w chynnwys pan leolir C gyda P

**2.**—(1) Cofnod o'r canlynol—

(a) yr asesiad o addasrwydd P i ofalu am C, gan gynnwys ystyriaeth o'r materion a nodir yn Atodlen 4,

(b) safbwyntiau, dymuniadau a theimladau C a safbwyntiau, dymuniadau a theimladau unrhyw berson arall y ceisir ei safbwyntiau gan yr awdurdod cyfrifol,

(c) penderfyniad yr awdurdod cyfrifol i leoli C gyda P.

(2) Manylion am y cymorth a'r gwasanaethau sydd i'w darparu i P yn ystod y lleoliad.

(3) Y rhwymedigaeth ar P i hysbysu'r awdurdod cyfrifol ynghylch unrhyw newid perthnasol yn yr amgylchiadau, gan gynnwys unrhyw fwriad i newid cyfeiriad, unrhyw newid ar yr aelwyd lle y mae C yn byw, ac unrhyw ddigwyddiad difrifol sy'n ymwneud ag C.

(4) Y rhwymedigaeth ar P i sicrhau bod unrhyw wybodaeth mewn perthynas ag C neu mewn perthynas â theulu C neu unrhyw berson arall, a roddir yn gyfrinachol i P mewn cysylltiad â'r lleoliad, yn cael ei chadw'n gyfrinachol, ac na chaiff gwybodaeth o'r fath ei datgelu i unrhyw berson heb gydsyniad yr awdurdod cyfrifol.

(5) Yr amgylchiadau pan fydd angen cael caniatâd yr awdurdod cyfrifol ymlaen llaw er mwyn i C fyw ar aelwyd ac eithrio aelwyd P.

(6) Y trefniadau ar gyfer gofyn am newid yn y cynllun lleoli.

(7) Yr amgylchiadau pan gaiff y lleoliad ei derfynu yn unol â rheoliad 20(c)(ii).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I6** Atod. 3 para. 2 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

### Gwybodaeth ychwanegol sydd i'w chynnwys pan leolir C gydag F, mewn cartref plant neu mewn trefniadau eraill

**3.**—(1) Cofnod o benderfyniad yr awdurdod cyfrifol o dan reoliad 23(2).

(2) Y math o lety sydd i'w ddarparu, y cyfeiriad, ac, os lleolir C mewn trefniadau eraill o dan adran 81(6)(d) o Ddeddf 2014, enw'r person a fydd yn gyfrifol am C yn y llety hwnnw ar ran yr awdurdod cyfrifol (os oes person o'r fath).

(3) Pan fo—

(a) gan yr awdurdod cyfrifol bryderon amddiffyn plant sy'n ymwneud ag C, neu hysbysir yr awdurdod ynghylch pryderon o'r fath, neu

(b) C wedi mynd ar goll o'r lleoliad, neu o unrhyw leoliad blaenorol,

y trefniadau beunyddiol a sefydlwyd gan y person priodoli i gadw C yn ddiogel.

(4) Hanes personol, argyhoeddiad crefyddol, cefndir diwylliannol ac ieithyddol, cyfeiriadedd rhywiol a tharddiad hiliol C.

(5) Pan fo C yn derbyn gofal ond nid yng ngofal yr awdurdod cyfrifol—

(a) cyfnod parhad disgwyliedig y trefniadau a'r camau y dylid eu cymryd i ddwyn y trefniadau i ben, gan gynnwys trefniadau i C ddychwelyd i fyw gyda rhieni C neu unrhyw berson nad yw'n rhiant C ond sydd â chyfrifoldeb rhiant am C; a

(b) pan fo C yn 16 oed neu'n hŷn ac yn cytuno i lety gael ei ddarparu iddo o dan adran 76 o Ddeddf 2014, y ffaith honno.

(6) Priod gyfrifoldebau'r awdurdod cyfrifol, rhieni C ac unrhyw berson nad yw'n rhiant C ond sydd â chyfrifoldeb rhiant am C.

(7) Unrhyw ddirprwyo o ran yr awdurdod i wneud penderfyniadau ynghylch gofal a magwraeth C gan y personau a grybwyllir yn is-baragraff (6) (fel y bo'n briodol) i—

(a) yr awdurdod cyfrifol,

(b) F, ac

(c) pan fo C wedi ei leoli mewn cartref plant, y person priodol,

mewn perthynas â'r materion a nodir yn is-baragraff (8), ac yn nodi unrhyw faterion yr mae'r personau a grybwyllir yn is-baragraff (6), yn ystyried y caiff C wneud penderfyniad yn eu cylch.

(8) Y materion y cyfeirir atynt yn is-baragraff (7) yw—

(a) triniaeth feddygol a deintyddol,

(b) addysg,

(c) hamdden a bywyd cartref,

(d) ffydd a defodau crefyddol,

(e) defnyddio cyfryngau cymdeithasol,

(f) unrhyw faterion eraill a ystyrir yn briodol gan y personau a grybwyllir yn is-baragraff (6).

(9) Trefniadau'r awdurdod cyfrifol ar gyfer cymorth ariannol i C yn ystod y lleoliad.

(10) Pan leolir C gydag F, y rhwymedigaeth ar F i gydymffurfio â thelerau'r cytundeb gofal maeth a wnaed o dan reoliad 28(5)(b) o'r Rheoliadau Maethu neu reoliad 27(5)(b) o Reoliadau Gwasanaethau Maethu (Lloegr) 2011.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I7** Atod. 3 para. 3 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

## ATODLEN 4

Rheoliad 18

Materion sydd i'w cymryd i ystyriaeth wrth asesu addasrwydd P i ofalu am C

**1.** Mewn cysylltiad â P—

(a) gallu P i ofalu am blant ac, yn benodol mewn perthynas ag C, i—

(i) darparu ar gyfer anghenion corfforol C a gofal meddygol a deintyddol priodol,

(ii) amddiffyn C yn ddigonol rhag niwed neu berygl, gan gynnwys rhag unrhyw berson sy'n peri risg o niwed i C,

(iii) sicrhau bod amgylchedd y cartref yn ddiogel ar gyfer C,

(iv) sicrhau y diwellir anghenion emosiynol C, a meithrinir ynddo hunan-ymdeimlad cadarnhaol, gan gynnwys unrhyw anghenion penodol sy'n tarddu o argyhoeddiad

crefyddol, tarddiad hiliol, cyfeiriadedd rhywiol, cefndir diwylliannol ac ieithyddol C, ac unrhyw anabledd y gallai fod ganddo,

(v) hyrwyddo dysgu a datblygiad deallusol C drwy annog, symbylu yn wybyddol, a hyrwyddo llwyddiant addysgol a chyfleoedd cymdeithasol,

(vi) galluogi C i reoli ei emosiynau a'i ymddygiad, gan gynnwys drwy fodelu ymddygiad a dulliau priodol o ryngweithio ag eraill, a

(vii) darparu amgylchedd teuluol sefydlog er mwyn galluogi C i ddatblygu a chynnal ymlyniadau diogel gyda P a phersonau eraill sy'n darparu gofal i C;

(b) cyflwr iechyd P gan gynnwys—

(i) iechyd corfforol P,

(ii) iechyd emosiynol P,

(iii) iechyd meddwl P,

(iv) hanes meddygol P,

(v) unrhyw faterion presennol neu o'r gorffennol o ran trais domestig,

(vi) unrhyw faterion presennol neu o'r gorffennol ynglŷn â chamddefnyddio sylweddau,

a pherthnasedd neu amherthnasedd unrhyw ffactorau o'r fath o ran gallu P i ofalu am blant, a gofalu am C yn benodol;

(c) perthnasoedd teuluol P a chyfansoddiad ei aelwyd, gan gynnwys manylion am—

(i) enwau pob aelod arall o'r aelwyd, gan gynnwys eu hoedrannau a natur eu perthynas â P ac â'i gilydd, gan gynnwys unrhyw berthynas rywiol,

(ii) unrhyw berthynas gydag unrhyw berson sy'n rhiant C (pa un a yw'n byw ar yr un aelwyd â P ai peidio),

(iii) oedolion eraill, nad ydynt yn aelodau o'r aelwyd, sy'n debygol o fod mewn cyswllt rheolaidd ag C, a

(iv) unrhyw drais domestig presennol neu flaenorol rhwng aelodau o'r aelwyd, gan gynnwys P;

(d) hanes teuluol P, gan gynnwys—

(i) manylion am blentyndod a magwraeth P, gan gynnwys cryfderau ac anawsterau rhieni P neu bersonau eraill a fu'n gofalu am P,

(ii) y berthynas rhwng P a'i rieni ac unrhyw frodyr neu chwiorydd, a'u perthynas â'i gilydd,

(iii) cyflawniad addysgol P ac unrhyw anhawster neu anabledd dysgu penodol,

(iv) rhestr gronolegol o ddigwyddiadau bywyd arwyddocaol, a

(v) manylion am berthnasau eraill a'r perthnasoedd rhyngddynt ag C a P;

(e) manylion am unrhyw droseddau y collfarnwyd P amdanynt neu y cafodd P rybuddiad mewn cysylltiad â hwy;

(f) cyflogaeth flaenorol a phresennol P a'i ffynonellau eraill o incwm; ac

(g) natur y gymdogaeth y lleolir cartref P ynddi, a'r adnoddau sydd ar gael yn y gymuned i gynorthwyo C a P.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I8** Atod. 4 para. 1 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

**2.** Mewn cysylltiad ag aelodau o'r aelwyd sy'n 18 oed a throsodd, yr holl fanylion i'r graddau y bo'n ymarferol, a bennir ym mharagraff 1 ac eithrio is-baragraffau (d), (f) ac (g).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I9** Atod. 4 para. 2 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

## ATODLEN 5

Rheoliad 26

Materion sydd i'w cymryd i ystyriaeth wrth asesu addasrwydd person cysylltiedig i ofalu am C

**1.** Mewn cysylltiad â'r person cysylltiedig—

(a) natur ac ansawdd unrhyw berthynas gyfredol ag C;

(b) ei allu i ofalu am blant ac, yn benodol mewn perthynas ag C i—

(i) darparu ar gyfer anghenion corfforol ac emosiynol C a sicrhau y caiff C ofal meddygol a deintyddol priodol,

(ii) amddiffyn C yn ddigonol rhag niwed neu berygl, gan gynnwys rhag unrhyw berson sy'n peri risg o niwed i C,

(iii) sicrhau bod y llety a'r amgylchedd cartref yn addas o ystyried oedran a lefel datblygiad C,

(iv) hyrwyddo dysgu a datblygiad C, a

(v) darparu amgylchedd teuluol sefydlog a fydd yn hyrwyddo ymlyniadau diogel ar gyfer C, gan gynnwys hyrwyddo cyswllt cadarnhaol gyda P a phersonau cysylltiedig eraill, oni fyddai gwneud hynny'n anghyson â'r ddyletswydd i ddiogelu a hyrwyddo llesiant C;

(c) cyflwr ei iechyd, gan gynnwys cyflwr presennol ei iechyd corfforol, emosiynol a meddyliol a'i hanes meddygol, gan gynnwys unrhyw faterion presennol neu o'r gorffennol o ran trais domestig, camddefnyddio sylweddau neu broblemau iechyd meddwl;

(d) ei berthnasoedd teuluol a chyfansoddiad ei aelwyd, gan gynnwys manylion o'r canlynol—

(i) enwau pob aelod arall o'r aelwyd, gan gynnwys eu hoedrannau a natur eu perthynas â'r person cysylltiedig ac â'i gilydd, gan gynnwys unrhyw berthynas rywiol,

(ii) unrhyw berthynas gydag unrhyw berson sy'n rhiant C,

(iii) unrhyw berthynas rhwng C ac aelodau eraill o'r aelwyd,

(iv) oedolion eraill, nad ydynt yn aelodau o'r aelwyd, sy'n debygol o fod mewn cyswllt rheolaidd ag C, a

(v) unrhyw drais domestig presennol neu flaenorol rhwng aelodau o'r aelwyd, gan gynnwys y person cysylltiedig;

(e) ei hanes teuluol, gan gynnwys—

(i) manylion am ei blentyndod a'i fagwraeth, gan gynnwys cryfderau ac anawsterau ei rieni a phersonau eraill a fu'n gofalu amdano,

(ii) y perthnasoedd rhyngddo â'i rieni ac unrhyw frodyr neu chwiorydd, a'u perthnasaoedd â'i gilydd,

(iii) ei gyflawniad addysgol ac unrhyw anhawster neu anabledd dysgu penodol,

(iv) rhestr gronolegol o ddigwyddiadau bywyd arwyddocaol, a

(v) manylion am berthnasau eraill a'r perthnasoedd rhyngddynt ag C a'r person cysylltiedig;

(f) manylion am unrhyw droseddau y'i collfarnwyd amdanynt neu y cafodd rybuddiad mewn cysylltiad â hwy;

(g) ei gyflogaeth flaenorol a phresennol a'i ffynonellau eraill o incwm; ac

(h) natur y gymdogaeth y lleolir ei gartref ynddi, a'r adnoddau sydd ar gael yn y gymuned i gynorthwyo C a'r person cysylltiedig.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I10** Atod. 5 para. 1 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

**2.** Mewn cysylltiad ag aelodau o'r aelwyd sy'n 18 oed a throsodd, yr holl fanylion i'r graddau y bo'n ymarferol, a bennir ym mharagraff 1 ac eithrio is-baragraffau (e), (f) ac (g).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I11** Atod. 5 para. 2 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

## ATODLEN 6

Rheoliad 29

### Cytundeb gydag asiantaeth faethu annibynnol mewn perthynas â chyflawni swyddogaethau'r awdurdod cyfrifol

**1.** Rhaid i'r cytundeb gynnwys yr wybodaeth ganlynol—

(a) y gwasanaethau sydd i'w darparu i'r awdurdod cyfrifol gan y person cofrestredig,

(b) y trefniadau ar gyfer dethol F gan yr awdurdod cyfrifol o blith y rhai a gymeradwyir gan y person cofrestredig,

(c) gofyniad bod y person cofrestredig yn cyflwyno adroddiadau i'r awdurdod cyfrifol ar unrhyw leoliadau fel y bo'n ofynnol gan yr awdurdod cyfrifol, a

(d) y trefniadau ar gyfer terfynu'r cytundeb.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I12** Atod. 6 para. 1 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

**2.** Pan fo'r cytundeb yn ymwneud â phlentyn penodol, rhaid iddo hefyd gynnwys yr wybodaeth ganlynol—

(a) manylion F,

(b) manylion am unrhyw wasanaethau y mae C i'w cael, a pha un ai'r awdurdod cyfrifol neu'r person cofrestredig sydd i ddarparu'r gwasanaethau hynny,

(c) telerau'r cytundeb lleoli arfaethedig (gan gynnwys ynglŷn â thalu),

(d) y trefniadau ar gyfer cadw cofnodion ynglŷn ag C ac ar gyfer dychwelyd cofnodion ar ddiwedd y lleoliad,

(e) gofyniad bod y person cofrestredig yn hysbysu'r awdurdod cyfrifol ar unwaith os digwydd unrhyw bryderon ynghylch y lleoliad, ac

(f) pa un a ganiateir lleoli plant eraill gydag F, ac ar ba sail y caniateir hynny.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I13** Atod. 6 para. 2 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

## ATODLEN 7

Rheoliad 30

### Materion sydd i'w hystyried cyn lleoli C mewn llety mewn lle nas rheoleiddir o dan adran 81(6)(d) o Ddeddf 2014

**1.** Mewn cysylltiad â'r llety—

(a) y cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir,

(b) ei gyflwr,

(c) ei ddiogelwch,

(d) ei leoliad,

(e) y cymorth,

(f) y statws tenantiaeth, ac

(g) yr ymrwymiadau ariannol sy'n gysylltiedig ar gyfer C a'u fforddiadwyedd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I14** Atod. 7 para. 1 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

**2.** Mewn cysylltiad ag C—

(a) ei safbwyntiau ynglŷn â'r llety,

(b) ei ddealltwriaeth o'i hawliau a'i gyfrifoldebau mewn perthynas â'r llety, a

(c) ei ddealltwriaeth o'r trefniadau cyllido.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I15** Atod. 7 para. 2 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

## ATODLEN 8

Rheoliad 41

### Ystyriaethau y mae'n rhaid i'r awdurdod cyfrifol roi sylw iddynt wrth adolygu achos C

**1.** Effaith unrhyw newid yn amgylchiadau C ers yr adolygiad blaenorol, yn enwedig unrhyw newid yng nghynllun gofal a chymorth C a wnaed gan yr awdurdod cyfrifol, pa un a weithredwyd

yn llwyddiannus y penderfyniadau a wnaed yn yr adolygiad blaenorol ai peidio, ac os na, y rhesymau am hynny.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I16** Atod. 8 para. 1 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

**2.** A ddylai'r awdurdod cyfrifol geisio unrhyw newid yn statws cyfreithiol C.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I17** Atod. 8 para. 2 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

**3.** A oes cynllun ar gyfer sefydlogrwydd i C.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I18** Atod. 8 para. 3 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

**4.** Y trefniadau ar gyfer cyswllt, ac a oes angen unrhyw newidiadau yn y trefniadau er mwyn hyrwyddo cyswllt rhwng C a P, neu rhwng C a phersonau cysylltiedig eraill.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I19** Atod. 8 para. 4 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

**5.** A yw lleoliad C yn parhau i fod y mwyaf addas sydd ar gael, ac a yw'n angenrheidiol neu'n ddymunol, neu'n debygol o fod yn angenrheidiol neu'n ddymunol, gwneud unrhyw newid yn y cynllun lleoli neu mewn unrhyw agweddau eraill ar y trefniadau i ddarparu llety i C cyn yr adolygiad nesaf o achos C.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I20** Atod. 8 para. 5 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

**6.** A yw lleoliad C yn diogelu a hyrwyddo ei lesiant, ac a oes unrhyw bryderon wedi eu codi ynglŷn â diogelu.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I21** Atod. 8 para. 6 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

**7.** Anghenion, cynnydd a datblygiad addysgol C, ac a yw'n angenrheidiol neu'n ddymunol, neu'n debygol o fod yn angenrheidiol neu'n ddymunol, er mwyn diwallu anghenion penodol C a hyrwyddo cyflawniad addysgol C, gwneud unrhyw newid yn y trefniadau ar gyfer addysg a hyfforddiant C cyn yr adolygiad nesaf o'i achos, gan ystyried cyngor unrhyw berson sy'n darparu addysg neu hyfforddiant i C, yn enwedig y person dynodedig mewn unrhyw ysgol lle mae C yn ddisgybl cofrestredig.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I22** Atod. 8 para. 7 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

**8.** Diddordebau hamdden C.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I23** Atod. 8 para. 8 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

**9.** Adroddiad yr asesiad diweddaraf o gyflwr iechyd C, a gafwyd yn unol â rheoliad 7, ac a yw'n angenrheidiol neu'n ddymunol, neu'n debygol o fod yn angenrheidiol neu'n ddymunol, gwneud unrhyw newid yn y trefniadau ar gyfer gofal iechyd C cyn yr adolygiad nesaf o'i achos, gan ystyried y cyngor a gafwyd gan unrhyw weithiwr proffesiynol gofal iechyd ers dyddiad yr adroddiad hwnnw, yn enwedig ymarferydd cyffredinol C.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I24** Atod. 8 para. 9 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

**10.** A ddiwellir anghenion C ai peidio mewn perthynas â'i hunaniaeth, ac a oes angen gwneud unrhyw newid penodol gan ystyried argyhoeddiad crefyddol, tarddiad hiliol, cyfeiriadedd rhywiol a chefndir diwylliannol ac ieithyddol C.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I25** Atod. 8 para. 10 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

**11.** A yw'r trefniadau a wnaed yn unol â rheoliad 34 yn parhau i fod yn briodol, ac a yw C yn eu deall.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I26** Atod. 8 para. 11 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

**12.** A oes angen gwneud unrhyw drefniadau ar gyfer yr amser pan na fydd C yn derbyn gofal gan yr awdurdod cyfrifol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I27** Atod. 8 para. 12 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

**13.** Dymuniadau a theimladau C, a safbwyntiau'r SAA, ynghylch unrhyw agwedd ar yr achos, ac yn benodol unrhyw newidiadau y mae'r awdurdod cyfrifol wedi eu gwneud ers yr adolygiad diwethaf, neu'n bwriadu eu gwneud, yng nghynllun gofal a chymorth C.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I28** Atod. 8 para. 13 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

**14.** Pan fo rheoliad 31(3) yn gymwys, amlder ymweliadau R.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I29** Atod. 8 para. 14 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

**15.** Pan fo C yn berson ifanc categori 1 sydd wedi ei leoli gyda rhiant maeth awdurdod lleol, canfod a yw C ac F yn bwriadu gwneud trefniant byw ôl-18.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I30** Atod. 8 para. 15 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

**16.** Os yw paragraff 15 yn gymwys ac os yw C yn dymuno gwneud trefniant o'r fath ond nid yw F yn dymuno hynny, ystyried a ddylid lleoli C gyda rhiant maeth awdurdod lleol gwahanol, er mwyn hwyluso gwneud trefniant o'r fath pan fydd C yn peidio â derbyn gofal.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I31** Atod. 8 para. 16 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

**17.** Pan fo C yn dod o fewn rheoliad 5(1)(f), pa un a yw anghenion C o ganlyniad i'r statws hwnnw yn cael eu diwallu ai peidio.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I32** Atod. 8 para. 17 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

## ATODLEN 9

Rheoliad 51

### Materion sydd i'w hymdrin â hwy yn y cynllun llwybr

**1.** Enw cynghorydd personol C.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I33** Atod. 9 para. 1 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

**2.** Natur a lefel y cyswllt a'r cymorth personol sydd i'w ddarparu i C, a chan bwy.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I34** Atod. 9 para. 2 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

**3.** Manylion am y llety a feddiennir gan C pan fydd C yn peidio â derbyn gofal.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I35** Atod. 9 para. 3 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

**4.** Pan fo C yn dymuno gwneud trefniant byw ôl-18, manylion am y cyngor a'r cymorth a ddarperir gan yr awdurdod cyfrifol i hwyluso a chynorthwyo C wrth wneud trefniant o'r fath.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I36** Atod. 9 para. 4 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

**5.** Y cynllun ar gyfer addysg neu hyfforddiant parhaus C pan fydd C yn peidio â derbyn gofal.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I37** Atod. 9 para. 5 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

**6.** Y modd y bydd yr awdurdod cyfrifol yn cynorthwyo C i gael cyflogaeth neu weithgaredd pwrpasol arall neu alwedigaeth.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I38** Atod. 9 para. 6 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

**7.** Y cymorth a ddarperir i alluogi C i ddatblygu a chynnal perthnasoedd teuluol a chymdeithasol priodol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I39** Atod. 9 para. 7 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

**8.** Rhaglen i ddatblygu'r sgiliau ymarferol a'r sgiliau eraill sydd ar C eu hangen i fyw yn annibynnol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I40** Atod. 9 para. 8 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

**9.** Y cymorth ariannol a ddarperir i alluogi C i ddiwallu costau llety a chostau cynnal.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I41** Atod. 9 para. 9 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

**10.** Anghenion gofal iechyd C, gan gynnwys unrhyw anghenion iechyd corfforol, emosiynol neu feddyliol a'r modd y diwellir yr anghenion hyn pan fydd C yn peidio â derbyn gofal.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I42** Atod. 9 para. 10 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

**11.** Cynlluniau wrth gefn yr awdurdod cyfrifol ar gyfer gweithredu os digwydd i'r cynllun llwybr, am unrhyw reswm, beidio â bod yn effeithiol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I43** Atod. 9 para. 11 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

## ATODLEN 10

Rheoliadau 5 a 58

Materion sydd i'w hymdrin â hwy yn y cynllun lleoli dan gadwad

**1.** Sut y gofelir am C o ddydd i ddydd ac y diogelir a hyrwyddir ei lesiant gan staff y carchar, LlCI neu'r fangre y mae'n ofynnol bod C yn preswylio ynddo neu ynddi.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I44** Atod. 10 para. 1 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

**2.** Unrhyw drefniadau ar gyfer cyswllt rhwng C ac unrhyw riant C neu unrhyw berson nad yw'n rhiant C ond sydd â chyfrifoldeb rhiant am C, a rhwng C ac unrhyw berson cysylltiedig arall, gan gynnwys, os yw'n briodol—

(a) y rhesymau pam na fyddai cyswllt ag unrhyw berson o'r fath yn rhesymol ymarferol neu na fyddai'n gyson â llesiant C,

(b) os nad yw C yng ngofal yr awdurdod cyfrifol, manylion am unrhyw orchymyn a wnaed o dan adran 8 o Ddeddf 1989,

(c) y trefniadau ar gyfer hysbysu ynghylch unrhyw newidiadau yn y trefniadau ar gyfer cyswllt.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I45** Atod. 10 para. 2 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

**3.** Y trefniadau a wnaed er mwyn i R ymweld ag C yn unol â Rhan 5, amlder y cyfryw ymweliadau a'r trefniadau a wnaed ar gyfer rhoi cyngor a chymorth arall ar gael i C rhwng ymweliadau yn unol â rheoliad 34.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I46** Atod. 10 para. 3 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

**4.** Os penodir ymwelydd annibynnol, y trefniadau a wnaed i ymwelydd annibynnol ymweld ag C.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I47** Atod. 10 para. 4 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

**5.** Y trefniadau a wnaed gan staff y carchar, LlCI neu'r fangre y mae'n ofynnol i C breswylio ynddo neu ynddi ar gyfer gofal iechyd C (gan gynnwys ei iechyd corfforol, emosiynol a meddyliol) a'i ofal deintyddol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I48** Atod. 10 para. 5 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

**6.** Y trefniadau a wnaed gan staff y carchar, LlCI neu'r fangre y mae'n ofynnol i C breswylio ynddo neu ynddi ar gyfer addysg a hyfforddiant C, gan gynnwys—

(a) enw a chyfeiriad unrhyw sefydliad addysgol neu sefydliad hyfforddi a fynychwyd gan C, neu unrhyw berson arall a oedd yn darparu addysg neu hyfforddiant i C yn union cyn rhoi C ar remánd neu dan gadwad,

(b) pan fo gan C ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, manylion yr awdurdod lleol (neu awdurdod lleol yn Lloegr) sy'n cynnal y datganiad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I49** Atod. 10 para. 6 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

**7.** Hanes personol, argyhoeddiad crefyddol, cefndir diwylliannol ac ieithyddol, cyfeiriadedd rhywiol, a tharddiad hiliol C, a'r trefniant a sefydlwyd gan staff y carchar, LlCI neu'r fangre y mae'n ofynnol i C breswylio ynddo neu ynddi ar gyfer diwallu anghenion C ynglŷn â'i hunaniaeth.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I50** Atod. 10 para. 7 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

**8.** Y trefniadau a sefydlwyd gan staff y carchar, LlCI neu'r fangre y mae'n ofynnol i C breswylio ynddo neu ynddi ar gyfer cynorthwyo C i ddatblygu sgiliau hunanofal.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I51** Atod. 10 para. 8 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

**9.** Enw a manylion cyswllt—

(a) yr SAA,

(b) yr ymwelydd annibynnol ar gyfer C (os penodwyd un),

(c) R,

(d) os yw C yn berson ifanc categori 1, y cynghorydd personol a benodwyd ar gyfer C.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I52** Atod. 10 para. 9 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

**10.** Manylion am y modd y dylai llesiant C gael ei ddiogelu'n ddigonol a'i hyrwyddo pan fo C yn peidio â bod ar remand i LlCI neu dan gadwad, ac yn benodol—

(a) pa un a ddarperir llety i C gan yr awdurdod cyfrifol neu gan awdurdod lleol arall neu gan awdurdod lleol yn Lloegr, a

(b) pa un a ddylai gwasanaethau eraill gael eu darparu gan yr awdurdod cyfrifol neu gan awdurdod lleol arall o dan Ddeddf 2014, neu gan awdurdod lleol yn Lloegr wrth arfer ei ddyletswyddau o dan Ddeddf 1989.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I53** Atod. 10 para. 10 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

## ATODLEN 11

Rheoliad 65

## Dirymiadau

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I54** Atod. 11 mewn grym ar 6.4.2016, gweler **rhl. 1(1)**

Mae'r Rheoliadau a nodir yn y Tabl wedi eu dirymu i'r graddau a bennir—

| *Rheoliadau a ddirymir* | *Rhif cyfresol* | *Graddau'r dirymiad* |
|---|---|---|
| Rheoliadau Cyswllt â Phlant 1991 | O.S. 1991/891 | Y Rheoliadau cyfan |
| Rheoliadau Diffinio Ymwelwyr Annibynnol (Plant) 1991 | O.S. 1991/892 | Y Rheoliadau cyfan |
| Rheoliadau Lleoli Plant gyda Rhieni etc 1991 | O.S. 1991/893 | Y Rheoliadau cyfan |
| Rheoliadau Plant (Lleoliadau Byrdymor) (Diwygiadau Amrywiol) 1995 | O.S. 1995/2015 | Y Rheoliadau cyfan * |
| | | (* mae rheoliad 2 eisoes wedi ei ddirymu o ran Cymru) |

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

- Pt. 1A inserted by S.I. 2021/860 reg. 5
- Sch. 1 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 2 para. 1 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 2 para. 2 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 2 para. 3 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 3 para. 1 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 3 para. 2 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 3 para. 3 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 4 para. 1 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 4 para. 2 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 5 para. 1 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 5 para. 2 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 6 para. 1 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 6 para. 2 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 6 para. 1(a) words substituted by S.I. 2019/237 Sch. 1 para. 25(5)para. 25(6)(b)(i)
- Sch. 6 para. 1(b) words substituted by S.I. 2019/237 Sch. 1 para. 25(5)para. 25(6)(b)(i)
- Sch. 6 para. 1(c) words substituted by S.I. 2019/237 Sch. 1 para. 25(5)para. 25(6)(b)(i)
- Sch. 6 para. 2(b) words substituted by S.I. 2019/237 Sch. 1 para. 25(5)para. 25(6)(b)(ii)
- Sch. 6 para. 2(e) words substituted by S.I. 2019/237 Sch. 1 para. 25(5)para. 25(6)(b)(ii)
- Sch. 6 heading words substituted by S.I. 2019/237 Sch. 1 para. 25(9)
- Sch. 7 para. 1 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 7 para. 2 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 8 para. 1 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 8 para. 2 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 8 para. 3 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 8 para. 4 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 8 para. 5 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 8 para. 6 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 8 para. 7 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 8 para. 8 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 8 para. 9 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 8 para. 10 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 8 para. 11 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 8 para. 12 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 8 para. 13 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 8 para. 14 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 8 para. 15 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 8 para. 16 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 8 para. 17 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 9 para. 1 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 9 para. 2 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 9 para. 3 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 9 para. 4 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 9 para. 5 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 9 para. 6 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)

- Sch. 9 para. 7 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 9 para. 8 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 9 para. 9 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 9 para. 10 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 9 para. 11 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 10 para. 1 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 10 para. 2 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 10 para. 3 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 10 para. 4 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 10 para. 5 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 10 para. 6 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 10 para. 7 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 10 para. 8 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 10 para. 9 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 10 para. 10 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- Sch. 11 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 1 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 2 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 2(1) word substituted by S.I. 2019/237 Sch. 1 para. 25(2)(b)(ii)
- reg. 2(1) words inserted by S.I. 2017/713 reg. 4(2)(a)
- reg. 2(1) words inserted by S.I. 2018/48 Sch. 1 para. 35(2)(a)
- reg. 2(1) words inserted by S.I. 2018/48 Sch. 1 para. 35(2)(c)
- reg. 2(1) words inserted by S.I. 2022/666 reg. 11(3)
- reg. 2(1) words substituted by S.I. 2022/634 reg. 84(2)
- reg. 2(1) words substituted by S.I. 2022/634 reg. 85(2) (Amendment to Welsh text)
- reg. 2(1) words substituted by S.I. 2023/1071 reg. 82(2) (Amendment to English text only)
- reg. 2(1) words substituted by S.I. 2023/1071 reg. 83(2) (Amendment to Welsh text only)
- reg. 2(1) words substituted by S.I. 2017/713 reg. 4(2)(b)
- reg. 2(1) words substituted by S.I. 2018/48 Sch. 1 para. 35(2)(b)
- reg. 2(1) words substituted by S.I. 2019/237 Sch. 1 para. 25(2)(a)
- reg. 2(1) words substituted by S.I. 2019/237 Sch. 1 para. 25(2)(b)(i)
- reg. 2(1) words substituted by S.I. 2021/860 reg. 3
- reg. 3 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 3 words substituted by S.I. 2021/860 reg. 4
- reg. 4 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 5 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 5(1)(b)(ii) omitted by S.I. 2021/860 reg. 6(a)
- reg. 5(1A) inserted by S.I. 2021/860 reg. 6(b)
- reg. 6 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 6(3)(e) words inserted by S.I. 2018/48 Sch. 1 para. 35(3)
- reg. 7 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 8 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 9 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 10 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 11 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 11(1) words substituted by S.I. 2022/666 reg. 11(4)
- reg. 12 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 12(6)(b) words omitted by S.I. 2018/111 reg. 2(2)
- reg. 12(8) words substituted by S.I. 2018/111 reg. 2(3)
- reg. 13 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 14 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 14(2)(f) words substituted by S.I. 2022/634 reg. 84(3)
- reg. 14(2)(f) words substituted by S.I. 2022/634 reg. 85(3) (Amendment to Welsh text)
- reg. 14(2)(f) words substituted by S.I. 2023/1071 reg. 82(3) (Amendment to English text only)

- reg. 14(2)(f) words substituted by S.I. 2023/1071 reg. 83(3) (Amendment to Welsh text only)
- reg. 15 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 16 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 17 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 18 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 19 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 20 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 21 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 22 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 22(1) words inserted by S.I. 2019/237 Sch. 1 para. 25(3)(b)
- reg. 22(1) words omitted by S.I. 2019/237 Sch. 1 para. 25(3)(a)
- reg. 23 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 23(2)(c) word substituted by S.I. 2019/237 Sch. 1 para. 25(4)
- reg. 24 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 25 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 26 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 26(1) amendment to earlier affecting provision S.I. 2020/1082, reg. 9 by S.I. 2021/251 reg. 2(2)
- reg. 26(1) words substituted (temp.) by S.I. 2020/1082 reg. 8
- reg. 27 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 28 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 29 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 29 heading words substituted by S.I. 2019/237 Sch. 1 para. 25(7)
- reg. 29(1) words substituted by S.I. 2019/237 Sch. 1 para. 25(5)para. 25(6)(a)
- reg. 29(2) words substituted by S.I. 2019/237 Sch. 1 para. 25(5)para. 25(6)(a)
- reg. 29(3) words substituted by S.I. 2019/237 Sch. 1 para. 25(5)para. 25(6)(a)
- reg. 30 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 31 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 31(7)(b) words inserted by S.I. 2018/48 Sch. 1 para. 35(4)
- reg. 32 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 33 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 34 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 35 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 36 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 37 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 38 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 39 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 40 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 41 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 41(1) words substituted by S.I. 2017/713 reg. 4(3)(a)
- reg. 41(2) words substituted by S.I. 2017/713 reg. 4(3)(b)
- reg. 42 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 43 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 44 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 45 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 46 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 47 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 48 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 49 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 50 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 51 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 52 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 53 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 54 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 54(1) words substituted by S.I. 2019/1094 Sch. 3 para. 38(a) (This amendment comes into force on the date on which Children and Social Work Act 2017 (c. 16),

s. 39(1) comes into force. That provision comes into force on 2.12.2019 by S.I. 2019/1436, reg. 2(b))
- reg. 54(1) words substituted by S.I. 2019/1094 Sch. 3 para. 38(b) (Amendment to Welsh text only. This amendment comes into force on the date on which Children and Social Work Act 2017 (c. 16), s. 39(1) comes into force. That provision comes into force on 2.12.2019 by S.I. 2019/1436, reg. 2(b))
- reg. 54(1) words substituted by S.I. 2017/52 Sch. 1 para. 33(2)
- reg. 55 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 56 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 57 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 57(4)(b) words substituted by S.I. 2017/713 reg. 4(4)
- reg. 58 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 59 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 60 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 61 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 62 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 63 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 63(2)(e) words substituted by S.I. 2019/237 Sch. 1 para. 25(8)
- reg. 64 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)
- reg. 65 coming into force by S.I. 2015/1818 reg. 1(1)

**Changes and effects yet to be applied to the whole Instrument associated Parts and Chapters:**

Whole provisions yet to be inserted into this Instrument (including any effects on those provisions):

- Sch. 8 para. 18-26 inserted by S.I. 2017/713 reg. 4(5)
- reg. 41(3) inserted by S.I. 2017/713 reg. 4(3)(c)